**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYLCHFAN ABERCANNAID I GYLCHFAN RHYD-Y-CAR, MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Abercannaid a Chylchfan Rhyd-y-car, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya (ac eithrio ar gyfer y cerbydau hynny a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys) ar y darn o'r A470 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn pan nad yw'r gwaharddiad a ddisgrifir yn i. uchod yn weithredol. Gall hyd a lled cyfyngiadau'r terfyn cyflymder amrywio o fewn terfynau y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Disgwylir y bydd cau'r ffordd, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) yn ysbeidiol o 6 Mai 2024 tan 22 Mai 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**THE A470 TRUNK ROAD (ABERCANAID ROUNDABOUT TO RHYDYCAR ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Abercanaid Roundabout and Rhydycar Roundabout, Merthyr Tyfil.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency Services or for the works) from proceeding on the length of the A470 trunk road described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

ii. impose either a 40 mph or 10 mph speed limit (other than for those vehicles being used by the emergency services) on the length of the A470 described in the Schedule to this Notice when the prohibition described at i. above is not in operation. The extent of the speed limit restrictions may vary within limits as indicated by traffic signs.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Road closures, which will be signed accordingly, are expected to operate overnight (20:00 hours - 06:00 hours) on an intermittent basis from 6 May 2024 until 22 May 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Terfynau Cyflymder 40 mya a 10 mya a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darn o'r A470 sy'n ymestyn o gyffordd yr ochr ogleddol â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Abercannaid i gyffordd yr ochr ddeheuol â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Rhyd-y-car.

### Llwybrau Eraill

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd gadael yr A470 wrth Gylchfan Abercannaid a chymryd y drydedd allanfa ar yr A4060 tua'r dwyrain, parhau tua'r gogledd-orllewin ar hyd Merthyr Road, Pentrebach Road, Heol Aberplym i mewn i Plymouth Terrace, yna yn ôl ar hyd Heol Aberplym ac ar y Stryd Fawr, yna wrth y gylchfan gymryd yr allanfa gyntaf ar yr A4102 i ailymuno â'r A470 wrth Gylchfan Rhyd-y-car. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gylchfan Rhyd-y-car.

## SCHEDULE

### Temporary Prohibition of Vehicles, 40 mph and 10 mph Speed Limits and Prohibition of Overtaking during Convoy Working

The length of the A470 that extends from the northern side junction with the circulatory carriageway of Abercanaid Roundabout to the southern side junction with the circulatory carriageway of Rhydycar Roundabout.

### Alternative Routes

The alternative route for northbound traffic will be to leave the A470 at Abercanaid Roundabout and take the third exit onto the eastbound A4060, continue north westbound along Merthyr Road, Pentrebach Road, Plymouth Street into Plymouth Terrace, then back along Plymouth Street and onto High Street, then at the roundabout take the first exit onto the A4102 to re-join the A470 at Rhydycar Roundabout. Vice versa for southbound traffic from Rhydycar Roundabout.